# Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

## Cofnodion EDT(2) 11-05

Dyddiad y cyfarfod: 28 Medi 2005

Amser y cyfarfod: 9.00 – 12.30

Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

### Aelodau'r Cynulliad a oedd yn bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Tamsin Dunwoody | Preseli Sir Benfro |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

### Swyddogion a oedd yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr yr Adran Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Jonathan Price | Prif Ymgynghorydd Economaidd |
| Julian Revell | Yr Is-Adran Ystadegau Addysg, Hyfforddiant ac Economaidd |
| Lynn Griffiths | Pennaeth y Gangen Polisi Egni a Dur |
| Dylan Hughes | Uwch Gwnsel y Cynulliad |
| Bob Macey | Pennaeth yr Is-Adran Polisi Economaidd |
| Meryl James | Is-Adran Rheoli'r Rhwydwaith Ffyrdd |
| Robin Shaw | Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru |
| Gwyn Griffiths | Ymgynghorydd Cyfreithiol |

## Gwasanaeth y Pwyllgor

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Sian Wilkins | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwynaid, Ymddiheuriadau, Cyfnewidiadau

1. Nid oedd ymddiheuriadau na chyfnewidiadau.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Papur: EDT(2) 11-05 (t.1)

EDT(2) 11-05 (t.2) Adroddiad Economaidd Chwarterol

EDT(2) 11-05 (t.3) Bwletin Ystadegau Chwarterol

**Gweithredu**

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu nodyn i’r Pwyllgor am ddadansoddiad o’r Gyllideb Drafnidiaeth ar gyfer Canolbarth Cymru a’r pryderon a oedd wedi codi o’r llithriant yn y rhaglen.

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatlbygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddosbarthu gwybodaeth bellach i’r Pwyllgor ynghylch y 50 cwmni a ddewiswyd ar gyfer y prosiect Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau.

- Cytunodd swyddogion i ail-ddosbarthu tabl 2 yn y Bwletin Ystadegau Chwarterol i gynnwys cymariaethau flwyddyn wrth flwyddyn.

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu nodyn i’r Pwyllgor am y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch canllawiau Cymorth Rhanbarthol.

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu gwybodaeth i’r Pwyllgor ynghylch y prosiect Corus Gateway.

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu adroddiad cynnydd i’r Pwyllgor ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn i ddatblygu academi awyrofod gerllaw RAF Mona ar Ynys Môn.

## Eitem 3: Map Llwybr Ynni

Papur: EDT(2) 11-05 (t.4)

### Gweithredu

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch y cynnydd gyda phrosiectau pwer y llanw.

- Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu llythyr at y Gweinidog dros Ddatlbygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn nodi’r safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor.

## Eitem 4: Adroddiad Anweithgarwch Economaidd – Ymateb y Gweinidog

Papur: EDT(2) 11-05 (t.5)

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu nodyn i’r Pwyllgor am y cynnydd gyda’r rhaglen Llwybrau at Waith.

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatlbygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu gwybodaeth

bellach am oblygiadau ariannol gweithredu’r argymhellion.

## Eitem 5: Deddfwriaeth Uno CCNC

Papur: EDT(2) 11-05 (t.6)

1. Awgrymodd Elin Jones y dylid dileu paragraff 29(1) o Orchymyn 2005 Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu). Byddai hyn yn sicrhau bod teitl y Ddeddf yn parhau i fod yn Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975. Cytunodd y Pwyllgor â hyn.

### Gweithredu

- Cytunodd y Pwyllgor i edrych ymhellach ar y broses apelio a fyddai’n berthnasol i orchmynion prynu gorfodol pe bai Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 2005 (Trosglwyddo Gweithredoddd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) yn cael ei gwneud.

- Cytunodd swyddogion i ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch atebolrwydd pensiwn Awdurdod Datblygu Cymru ar yr adeg iawn.

## Eitem 6: Y Mesur Diogelwch Ffyrdd

Papur: EDT(2) 11-05 (t.7)

### Gweithredoedd

- Roedd y Pwyllgor yn hapus â chynnwys y Mesur a chytunodd y Cadeirydd i adrodd i’r Pwyllgor Busnes.

- Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog yn manylu ar eu pryderon ynghylch gweithredu’r argymhellion yn y Mesur.

## Eitem 7: EDT: Rhaglen Is-ddeddfwriaeth

Papur: EDT(2) 11-05 (t.8)

### Gweithredu

- Nododd Aelodau’r rhestr o Ddeddfwriaethau ac fe’u cynghorwyd gan y Cadeirydd i e-bostio unrhyw ddeddfwriaeth yr hoffent ei ystyried i’r Clerc.

## Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Papur: EDT(2) 10-05 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf

Papur: EDT(2) 11-05 – Camau heb eu cymryd

- Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffenaf fel rhai cywir.

Gwasanaeth y Pwyllgor